Tir a Môr

Cylchlythyr Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion
Cardigan Bay Special Area of Conservation Newsletter

Rhif No 7

Gwanwyn 2003 Spring 2003

BETH SYDD MOR ARBENNIG ynglŷn â Bae Ceredigion?

Pa beth bynnag a fyddwch yn ei wneud yng Ngheredigion, boed yn mwynhau'r traeth, allan mewn cwch, neu gerdded ar hyd llwybr yr arfordir, byddwch yn profi harddwch ac ansawdd uchel amgylchedd morol ac arfordirol Ceredigion. Mae yn yr ardal nifer o rywogaethau a chynefinoedd o bwys rhyngwladol, gyda'r dolffiniaid trwynbwl bythol chwareus ond yn un ohonynt.

Bae Ceredigion - ymgeisydd am Ardal Gadwraeth Arbennig –

beth yw hyn i gyd amdano?

Mae Bae Ceredigion yn ardal bwysig ar gyfer Dolffiniaid Trwynbwl, sef un o ddwy ardal yn y DU lle gwelir niferoedd mawr ohonynt yn rheolaidd. Arweiniodd eu presenoldeb yma at gyflwyno'r rhan ddeheuol o'r Bae fel ymgeisydd ar gyfer Ardal Gadwraeth Arbennig – dynodiad sydd yn anelu at gynnal ac adfer cynefinoedd naturiol a rhywogaethau o bwys Ewropeaidd. Ers hynny, mae rhywogaethau newydd a chynefinoedd hefyd yn cael eu hamddiffyn o dan y dynodiad – darllenwch ymlaen er mwyn dod o hyd i ragor o wybodaeth!

Er mwyn rheoli Ardal Gadwraeth Arbennig yn briodol, lluniwyd cynllun manwl.Digwyddodd hyn drwy bartneriaeth rhwng grwpiau diddordeb lleol ac Awdurdodau Perthnasol y Llywodraeth. Rhoesant yn hael o'u hamser a'u hegni i ddatblygu camau gweithredu rheoli a fyddai'n fodd i gyflawni amcanion cadwraethol. Lansiwyd y cynllun yng ngwanwyn 2001 ac yn awr, ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae'n amser i weld sut y mae pethau wedi newid a sut yr ydym yn cwrdd â'n targedau. Ceir mwy o fanylion ar dudalen 3!

Gwefan newydd Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion – *logiwch ymlaen a dysgwch!*

www.cardiganbaysac.org.uk

Edrychwch ar y datblygiadau diweddaraf; ymgynghorwch â'r cynllun rheoli; a rhowch eich barn ar y dudalen fforwm! Byddwn yn archwilio'r safle'n rheolaidd gan nodi datblygiadau wrth iddynt ddigwydd.

SO WHAT'S SO SPECIAL about Cardigan Bay?

Whatever you get up to in Cardigan Bay, whether you're enjoying the beach, out in a boat, or walking along the coastal path, you will experience the beauty and quality of Ceredigion's marine and coastal environment. The area supports a number of internationally important species and habitats, the rare and ever playful Bottlenose dolphins being just one of them.

Cardigan Bay candidate Special Area of Conservation –

what's it all about?

Cardigan Bay is an important area for Bottlenose dolphins, being one of only two areas in the UK where they are known to occur in large numbers on a regular basis. Their presence here led to the southern portion of the Bay being put forward as a candidate Special Area of Conservation (cSAC) - a designation that aims to maintain and restore natural habitats and species of European importance. Since then, new species and habitats are also protected under the designation - read on to find out more!

To manage the cSAC area properly a detailed plan was drawn up. It came about through a partnership between local interest groups and the Relevant Government Authorities. They devoted a huge amount of time and energy to developing management actions that would achieve the conservation objectives. The plan was launched in the spring of 2001 and now, two years on, it is time to see how things have changed and how we are doing in meeting our targets. Page 3 has more details.

The new Cardigan Bay cSAC website-

log on and learn!

www.cardiganbaysac.org.uk

View the latest developments; consult the management plan; and post your views on the forum page! We will be checking the site regularly and posting developments as they happen.

Mick Baines

Efallai fod y cyllid Ewropeaidd cychwynnol i sefydlu Ardal Gadwraeth Arbennig wedi dod i ben, ond nid yw'r awdurdodau perthnasol wedi rhoi'r gorau iddi! Maent wedi ymrwymo i'r rôl o ddiogelu amgylchedd y Bae ac wedi dod at ei gilydd er mwyn cyllido ar y cyd swydd newydd Swyddog Ardal Gadwraeth Arbennig er mwyn hybu hynny.

FFLACH NEWYDDION NEWSFLASH

The initial European funding to set up Cardigan Bay cSAC may have dried up, but the relevant authorities are not put off! They are dedicated to their role to conserve the Bay's environment and have come together to jointly fund the creation of the new cSAC Officers post to promote just that.

Hwb i'r Bae!

Mae gan y Swyddog newydd, Jamie Davies, sydd wedi ei leoli yn Swyddfa Penmorfa Cyngor Sir Ceredigion, Aberaeron dair prif dasg:

1. Hyrwyddo mwy o gydlynu a chydweithrediad rhwng pob grw^p sydd â diddordeb er mwyn sicrhau bod y cynllun rheoli yn cyflawni ei amcanion.
2. Er mwyn bod yn 'berson pwynt' i'r Ardal Gadwraeth Arbennig. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau yn ymwneud ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Jamie yw'r un i gysylltu ag ef. Mae mewn sefyllfa i olrhain unrhyw ymholiadau a chael yr atebion y mae arnoch eu hangen.
3. Er mwyn codi proffil Ardaloedd Tirweddol Arbennig drwy gefnogi addysg sydd yn bodoli eisoes a gweithgareddau maes yn ogystal â chymryd arweiniad mewn prosiectau newydd.

Mae Jamie yma er eich budd chi ac mae'n edrych ymlaen i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol. Felly peidiwch ag oedi i gysylltu ag ef ar unrhyw faterion sydd yn ymwneud ag Ardal Gadwraeth Arbennig.

A boost for the Bay!

The new Officer, Jamie Davies, who is based at Ceredigion County Council's Penmorfa Office, Aberaeron has three main tasks:

1. To promote increased coordination and cooperation between all interested groups to ensure that the management plan is achieving its objectives.
2. To be the cSAC 'point person'. If you have any questions or comments concerning the cSAC, Jamie is the person to contact. He is in a position to follow up any queries and get you the answers you need.
3. To raise the profile of the cSAC by supporting existing education and outreach activities as well as taking a lead in new projects.

Jamie is here for your benefit and looking forward to getting involved in local activities. So don't hesitate to get in touch with him on any cSAC related issues.

Yn dwli ar yr amgylchedd? –

ymunwch â Grŵp Cyswllt Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion!

Os ydych yn meddwl ein bod yn gwneud rhy ychydig neu ormod i amddiffyn yr amgylchedd, gadewch i ni wybod! Mae gan y gymuned rôl hanfodol i'w chwarae mewn diogelu amgylchedd y Bae. Felly yr ydym yn annog pawb i gymryd rhan yn nyfodol eich amgylchedd **chi**.

O leiaf ddwywaith y flwyddyn cynhelir cyfarfod cyhoeddus i drafod materion yr Ardal Gadwraeth Arbennig a symud y broses reoli ymlaen. Po fwyaf o bobl sydd yn cymryd rhan, cynrychiolir y gymuned yn well – felly dewch i leisio eich barn.

Os hoffech gael gwybodaeth ynglŷn â lle y cynhelir y cyfarfodydd cysylltwch â'r Swyddog Ardal Gadwraeth **www.cardiganbaysac.org.uk**

Mad about the environment? –

join the Cardigan Bay cSAC Liaison Group!

Whether you think we are doing too little or too much to protect the environment- let us know! The community has a vital role to play in the conservation of the Bay's environment. So we urge everyone to get involved in what is **your** environment's future!

At least twice a year a public meeting is held to discuss cSAC issues and move the management process forward. The more people involved, the better the community's opinions are represented - so come along and make your feelings known.

If you want to be informed when the meetings are to be held contact the cSAC Officer or check the website **www.cardiganbaysac.org.uk**

Pwy yw'r Awdurdodau Perthnasol

sydd yn gyfrifol am Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion?

Mick Baines

Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd **C**ymru & Gogledd Orllewin Lloegr
Cyngor Sir Penfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru
Tŷ'rDrindod
Dŵr Cymru

Who are the Relevant Authorities

responsible for Cardigan Bay cSAC?

Mick Baines

Ceredigion County Council
Countryside Council for Wales
Environment Agency Wales
North Wales & North West Sea Fisheries Committee
Pembrokeshire County Council
Pembrokeshire Coast National Park Authority
South Wales Sea Fisheries Committee
Trinity House
Welsh Water

"Newyddion Gwylio'r Dolffiniaid" – beth yw'r diweddaraf?

Os ydych am ragor o wybodaeth fanwl a chanlyniadau astudiaeth ar y berthynas rhwng cychod ar y môr ac aflonyddu ar ddolffiniaid mynnwch y cylchlythyr "Newyddion Gwylio'r Dolffiniaid' oddi wrth y Ganolfan Groeso, sganiwch y wefan, neu cysylltwch â'r Swyddog Ardal Gadwraeth Arbennig.

"Dolphin Watch News" - what's the latest?

For more detailed information and results of a study on the relationship between boating activity and dolphin disturbance pick up the latest "Dolphin Watch News" newsletter from the Tourist Information Centre, scan the website, or contact the cSAC Officer.

Rheoli Ardal Gadwraeth Arbennig – a ydym yn iawn?

Mae cynllun rheoli gwreiddiol Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion yn rhestru 143 o gamau a gynlluniwyd ar gyfer nodau cadwraeth – yn bennaf er mwyn cynnal niferoedd a dosbarthiad dolffiniaid Trwyn Potel.

Y newyddion da!

Mae arolwg Ardaloedd Cadwraeth Arbennig 2002 yn awgrymu nad yw poblogaeth y dolffiniaid wedi dirywio ers yr amcangyfrifiad o 127 o ddolffiniaid trwyn potel ym 1997. Mae hyn yn newydd da! Fodd bynnag, mae rhai adroddiadau yn nodi bod y nifer o ddolffiniaid sydd yn ymweld â mannau penodol yn y Bae wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae angen i ni ystyried pam mae hyn yn bod. Mae nifer o wahanol sefydliadau yn cymryd rhan mewn ymchwil leol ar ddolffiniaid a drwy eu gweithgareddau yr ydym yn cael dealltwriaeth glir o nifer a dosbarthiad y dolffiniaid. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus a gwella cadwraeth y rhywogaethau a'r cynefinoedd y maent yn ddibynnol arnynt.

83% o'r camau rheoli wedi eu cyflawni – ond dal i fod digon i'w wneud!

Gweithredwyd ar y mwyafrif llethol o gamau rheoli ers lansio'r cynllun rheoli. Fodd bynnag, mae'r cynllun rheoli yn ddogfen 'waith' ac mae angen gweithredu pob cam, a'u hadolygu a'u blaenoriaethu fel bo materion newydd yn codi.

Drwy gydol y broses adolygu mae'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol wedi nodi'r camau y mae angen eu blaenoriaethu ar gyfer 2003/4- y rhai hynny sydd heb eu cyflawni eto sydd gyntaf ar y rhestr.

Y Diweddaraf ar y Cynllun Rheoli – beth sydd yn newydd?

Ers i'r Cynllun gwreiddiol gael ei lansio yn 2001, diogelir chwe nodwedd newydd yn awr gan yr Ardal Gadwraeth Arbennig. Yn ogystal â'r dolffiniaid, Morloi Llwyd, rhywogaethau pysgod Lamprai'r Afon a'r Môr, a thri cynefin pwysig, traethellau, riffiau a ogofeydd môr. Mae'r Awdurdodau perthnasol yn awr hefyd yn ystyried camau rheoli angenrheidiol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu yn dda, a bydd yn rhaid ychwanegu adrannau newydd i'r Cynllun gwreiddiol er mwyn cyflawni hyn.

Mae'r cynllun rheoli a'r arolwg ar gael i unrhyw un a hoffai gael copi ac maent ar gael ar ***www.cardiganbaysac.org.uk*** neu oddi wrth y Swyddog Ardal Gadwraeth Arbennig.

Andrea Dickens

Simon Wilkins

Simon Wilkins

cSAC management – are we getting it right?

Cardigan Bay cSAC's original management plan lists 143 actions that are designed to obtain the conservation goals- primarily to maintain the abundance and distribution of Bottlenose dolphins.

The good news!

A 2002 cSAC-wide survey suggests that the dolphin population has not declined since an estimate of 127 bottlenose dolphins was made in 1997. This is good news! However, some research reports that the number of dolphins visiting certain areas in the Bay has decreased in recent years and we need to consider why this might be. A number of different organisations are involved in local dolphin research and it is through their activities that we will gain a clearer understanding of dolphin distribution and abundance. This will enable us to make more informed management decisions and improve the conservation of the species and the habitats they rely upon.

83% of management actions tackled – but still plenty to do!

The vast majority of management actions have been acted upon since the management plan was launched. However, the management plan is a 'working' document and each action requires ongoing implementation, review and prioritisation as new issues arise.

Through the review process the Relevant Authority Group has identified actions that require prioritisation for 2003/4- those yet to be tackled being first on the list.

The Management Plan update – what's new?

Since the original Plan was launched in 2001, six new features are now protected by the cSAC. As well as the dolphins, Grey seals, Sea and River Lamprey fish species, and three important habitat types: sandbanks, reefs, and seacaves are now included. The Relevant Authorities are now considering management actions necessary to ensure they are conserved as well, and will have to add new sections to the original Plan to achieve this.

Mick Baines

The management plan and review are available to anyone that would like a copy and are available ***www.cardiganbaysac.org.uk*** or from the cSAC Officer.

Gallwch wneud gwahaniaeth go iawn!

Dilynwch y Cod Ymddygiad Cadwraeth Forol



Mae eich cefnogaeth yn hanfodol i lwyddiant Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Mae'r dolffiniaid a bywyd gwyllt arall wedi bod yma er drwy gadw at God Ymddygiad Cadwraeth Forol byddwch yn helpu i sicrhau y byddant yma am lawer mwy.

CÔD YMDDYGIAD CADWRAETH FOROL

Cychod: Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio cychod er mwyd diogelu'r pobl ynddynt ac er mwyn parchu pawb arall sydd yn defnyddio'r môr.

Dolffiniaid a Llamhidyddion: Os dewch ar draws y mamaliaid morol hyn yn y môr, a wnewch os gwelwch yn dda:

- Gadw at gyflymder a llwybr cyson, neu arafu yn raddol
- Peidiwch â mynd ar eu hôl, troi rywsut-rywsut na cheisio eu bwydo na'u cyffwrdd
- Cymerwch ofal arbennig i osgoi dolffiniaid gyda'u hepil
- Peidiwch â cheisio nofio gyda'r mamaliaid hyn.

Morloi:

- Peidiwch â tharfu ar forloi na'u hepil ar y traeth.
- Gadewch lonydd iddynt gan y gall unrhyw ymgais i fynd atynt achosi pryder iddynt.
- Cadwch reolaeth ar gŵn a chadwch hwy i ffwrdd oddi wrth forloi.

Adar:

- Cadwch100m i ffwrdd o'r clogwyni rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf, cadwch yn glir rhag clystyrau o adar yn y môr, & gwneud llai o sŵn pan yn agos at y clogwyni.

Pysgota:

- Ewch â'ch tacl adref gyda chi.

Beiciau Dŵr:

- Peidiwch â defnyddio beiciau dŵr.

IS-DDEDDFAU CEREDIGION
Mae copïau o'r is-ddeddfau ar gael yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion a Chanolfannau Croeso Ceredigion.

CEREDIGION BYELAWS
A complete set of byelaws is available for inspection at Ceredigion County Council Offices and Tourist Information Centres.

You can make a real difference!

Please follow the Marine Conservation Code of Conduct

Your support is vital to the cSAC's success. The dolphins and other wildlife have been here for generations – by adhering to the Marine Conservation Code of Conduct you will be helping to ensure that they are here for many more.

MARINE CONSERVATION CODE OF CONDUCT

Boats: Please operate all boats with care and attention for the safety of occupants and respect for all other sea users.

Dolphins and Porpoise: If these marine mammals are encountered at sea please:

- Maintain a steady speed and course, or slow down gradually
- Do not chase, manoeuvre erratically, turn towards or attempt to feed or touch them
- Take extra care to avoid dolphins with their young
- Please do not attempt to swim with these mammals

Seals:

- Do not interfere with seals or their pups on the beach.
- Please leave alone as any attempts to approach may cause stress.
- Control dogs and keep them away from seals.

Birds:

- Keep 100m out from the cliffs between 1 March to 31 July, keep clear of rafts of birds at sea, & reduce noise when close to the cliffs.

Fishing:

- Please take your tackle home with you.

Jet Skis:

- Please do not operate jet skis.

Cadwch mewn cysylltiad

Gellir cysylltu â'r Swyddog Ardal Gadwraeth Arbennig Jamie Davies, yn: Ffon: 01545 572139
Ebost: *jamied@ceredigion.gov.uk*

Diolch yn Fawr

Diolch yn arbennig i Mick Baines, Simon Wilkins a Andrea Dickens am eu cyfraniad o ffotograffau a chefnogaeth barhaus i'r Ardal Gadrwaeth Arbennig.

Keep in touch!

Jamie Davies, the cSAC Officer can be contacted at:
Tel: 01545 572139
Email: *jamied@ceredigion.gov.uk*

Thank you

Special thanks to Mick Baines, Simon Wilkins and Andrea Dickens for their contribution of photographs and continuing support to the cSAC.

Cynhyrchwyd gan AGAT ar ran yr Awdurdodau Perthnasol. Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA. ☎ 01545 572139

Produced by DESH on behalf of the Relevant Authorities. Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA. ☎ 01545 572139